# Gair Bach Bethlehem 58

 Rhifyn cyn cyfnod prysur y Nadolig 2026! 

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth]
*Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)*

Gan fod yna gymaint o ddigwyddiadau i lanw'ch calendr tymhorol – dyma gyfle i geisio crynhoi rhai (ond nid y cyfan, yn sicr) o'r digwyddiadau sydd yn digwydd cyn y Nadolig. Cyfle hefyd i gofnodi rhai o weithgareddau diweddar Bethlehem. Diolch i Rhodri am e-bostio'r wybodaeth i chi. Bydd y rhifyn nesaf yn cynnwys ein hoedfaon Nadoligaidd. Ond wele'r cyfan sydd i law, hyd yma, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn:

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Oedfa Gymun Sul y 6ed o Ragfyr**
Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion am **10:30 a.m**. Sul y 6ed o Ragfyr. Paned i ddilyn.
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Cyngerdd – 6ed o Ragfyr**
Cyngerdd 'Dathlu'r Nadolig' gan Gôr Ifor Bach a Chôr Tân y Ddraig Sul y 6ed o Ragfyr am **7:30 p.m**.
[tocynnau trwy: www.*eventbrite.com*]
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Oedfa "9 Llith a Charol" – 13eg o Ragfyr**
Oedfa "9 Llith a Charol" **am 5:00 p.m**., yng nghwmni Côr CF1 ac aelodau'r Capel.
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul – 20fed o Ragfyr am 10:30 a.m.**
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Oedfa bore'r Nadolig - 25ain o Ragfyr am 10:00 a.m.**
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: Oedfa olaf y flwyddyn ar Sul y 27ain o Ragfyr am 10:30 a.m.**

- **Clwb Tenis yr Eglwys Newydd**: Nos Fercher, **Tachwedd 25**, Heol San Ffransis am 7pm.

***Beirdd y fro'n cyfarch Bardd Coronog Y Garreg Las.*** Elw'r noson yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2028. Tocynnau'n £5 o Siop Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd.

- **Cadeirlan Llandaf: Cyngerdd: 5ed o Ragfyr**

Cyngerdd gan Gymdeithas Gorawl y Gadeirlan, gyda Cherddorfa Siambr Caerdydd, ac unawdwyr, am 7:00 p.m. Tocynnau: £20

- **Senedd Cymru: Gweddïau'r Adfent dros Heddwch Cyfiawn – 9fed o Ragfyr**

Cynhelir noson o fyfyrdod a gweddi dros heddwch a chyfiawnder yn y Senedd ddydd Mercher, 9 Rhagfyr, rhwng 6.00 ac 8.00yh. Bydd cyfle i glywed myfyrdodau o'r Tir Sanctaidd ac i adnewyddu ein hymrwymiad at heddwch. Trefnir y noson gan aelodau o'r Senedd. Rhaid cofrestru ymlaen llaw erbyn 7 Rhagfyr drwy'r ddolen hon: https://forms.cloud.microsoft/pages/responsepage.aspx?id=KDzMnelyG061ESyb87xYeF8FnAx0k-RKurTXkyGC5mZUNFk4MFpRMlI3M1ZMS0VRMDhOOUlKUUNYOC4u&route=shorturl

- **Cyfundeb De-ddwyrain Cymru: Noson Nadoligaidd 'Meic Agored' - 10fed o Ragfyr**

Noson Nadoligaidd 'Meic Agored' Nos Iau 10 Rhagfyr am 7:00 p.m. yn Eglwys Norwyaidd Bae Caerdydd. (Gyda chefnogaeth Cyfundeb Annibynwyr De-Ddwyrain Cymru). Wrth inni nesáu at dymor y Nadolig, hoffem eich gwahodd i fynychu noson gymdeithasol, anffurfiol a hwyliog, gyda chyfle i brofi ysbryd yr ŵyl mewn cwmni da! Os hoffech ganu cân Nadoligaidd neu garol, ddarllen barddoniaeth, neu unrhyw beth o'ch dewis - byddai'n hyfryd inni gael eich cyfraniad. Braf fyddai cael eitem gan nifer o'n heglwysi. Neu os hoffech ddod a gwneud dim ond eistedd nôl, sgwrsio a mwynhau, bydd croeso mawr ichi! Os dymunwch ragor o wybodaeth neu air cyn y noson, yna cysylltwch â: *dylan89rhys@gmail.com* neu *sianmeinir@gmail.com*

- **Eglwys y Crwys, Caerdydd: Naws y Nadolig – 11eg o Ragfyr**

Eglwys y Crwys nos Wener, 11 Rhagfyr, am 7.00yh, - noson o gerddoriaeth gyda Gwenan Gibbard. £5 yw pris y tocyn, gan gynnwys lluniaeth ysgafn.

- **Capel y Bont, Pontypridd** - **12fed o Ragfyr** am 7:00 p.m.

Côr Godre'r Garth, ac Unawdwyr gwadd, yn cyflwyno "Atgof o'r Sêr" (Robert Arwyn) Tocynnau yn £15 (£18 ar y noson).

- **Eglwys Gatholig Santes Helen, Caerffili: Cyngerdd C.O.R. – 18fed o Ragfyr**

"Gwledd yr Wyl" - Cyngerdd Nadolig C.O.R. dan arweiniad Osian Rowlands am 7:30 p.m. Tocynnau: £15.
[Elw tuag at Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen 2027]

Yr Ysgol Sul

# Diolchgarwch y Plant

*18.10.26*


























Diolch i holl ddisgyblion yr Ysgol Sul, yr athrawon, y cyfeilyddion ac i Heulwen Jones am y gwasanaeth arbennig hwn. Heulwen hefyd fu'n annerch y plant, gan ganolbwyntio ar drafod yr hyn sydd neu wedi bod yn prinhau. (Gyda llaw, roedd yn syndod mor graff oedd aelodau'r Ysgol Sul i adnabod y lluniau o'r gwahanol adar.) Y "linc" ar gyfer recordiad o'r oedfa gyfan ydy: https://youtu.be/13GMQjsr3HU
Rhag i ni anghofio fod yno hefyd gynulleidfa, cewch gip ar rai ohonyn nhw ar y dudalen nesaf!







**ANFONWN EIN COFION AT :**

*Dafydd Jones a John Ifans – ill dau bellach wedi cael cymalau newydd wedi eu llawdriniaethau .*
*Cofion hefyd at Huw Edwards, sydd wedi gofod cilio dros dro o'n plith oherwydd anhwylder.*
*Rydyn ni'n anfon ein cofion at Elinor, merch Ann ac Ian Hughes, Pentre-poeth, sydd bellach yn ôl yn Llandaf ar ôl cyfnod yn ysbyty.*
*Braf iawn gweld Ann McMillan wedi dychwelyd yn ôl i'r oedfa wedi ei chyfnod hithau o salwch.*

## Mae pob cyfraniad i'r "Gair Bach" yn werthfawr.

Oes ganddoch chi luniau o'r gorffennol?
Neu air o brofiad neu atgof?
Mae pob cyfraniad yn werth ei gynnwys.

Ifan : tycnau@aol.com neu 07761826977

I'ch atgoffa am y ddau achlysur diweddar achosodd i ni ohirio'r oedfaon ym Methlehem.



Y goeden ger y garej, oedd yn rhwystro mynediad at y Tŷ Cwrdd



Y llifogydd ddaeth o'r Garth Bach ddiwedd Gorffennaf, gan orlifo aelwydydd Heol Berry (sydd heb eu hadfer hyd heddiw) a chau Heol Goch a'r hewl at y Tŷ Cwrdd.

Noson y Cwis

# Buddugoliaeth i'r Tîm Lleol!





Na! Nid cyfeiriad at y gem rygbi ar Sadwrn, Tachwedd 14, yw'r pennawd uchod. Roedd hon yn ornest fwy cystadleuol na honno, hyd yn oed!

Nos Lun, Tachwedd 16, oedd hi. Noson lle daeth yr arch-gwis-feistr **Alun Jenkins** i fesur gwybodaeth rhai o feddylwyr mwyaf praff Bethlehem. Y pum byrddaid oedd yn herio'u gilydd oedd: ***Main Road, Y Pentyrch Tŵ +1, Dere Nôl, Felin-foel a Merched yn Bennaf***.

Mae yna linell yn y cyfieithiad Cymraeg o "Look Back in Anger" sy'n cyfeirio at "Nigel ac Alison" – "Mae sŵn eu buchedd yn eu henwau!" Felly hefyd y timau uchod.

Dim ond un tîm oedd yn gyson uchel eu marciau, fel y profodd y canlyniad. Roedd y sgorio yng ngofal uwch-fathemategydd disgleiriaf y festri, **Delwyn "Vorderman"** oedd hefyd yn cynrychioli'r "+1" yn y tîm ddaeth yn olaf ond un!

Roedd hi'n noson hwyliog a hamddenol braf ac yn un olygodd chwythu ambell "we pry cop" oddi ar gelloedd y cof. Noson hefyd oedd yn amlygu arbenigedd rhai mewn meysydd hynod amrywiol gan gynnwys rhif peiriannau cyfres Tomos y Tanc!

Llawn cyn bwysiced oedd y cyfraniadau o £240 tuag at ein helusen leol, sef Sight Life (yr enw, fel y gwyddoch, sydd bellach ar Sefydliad y Deillion yng Nghaerdydd – www.sightlife.wales).



Y tîm buddugol – "Main Road" – yn dathlu eu buddugoliaeth!
Llongyfarchiadau.

Cymdeithas Bethlehem - Fis Hydref

# Y Gannwyll Gudd a'r Goes Las

Ifan Roberts

Yn sicr, mae myrdd o ddoniau cudd ym Methlehem. Oes yn wir. Wyddech chi fod yna ganwr baledi a dynwaredwr R.S Thomas yn ein plith? Bellach, fe ŵyr y fintai fynychodd gyfarfod mis Hydref o'r Gymdeithas hynny. A chawsoch chi, y rhai na fynychodd, golled!





Roedd hi'n dymor cwymp y dail, fel y bu i Delyth Pollard ein hatgoffa yn ei hagoriad gan gynnwys cyfeiriad at "Dysgub y Dail".

Ac yna, o'r mawredd! Roedd hi'n ddiwrnod i bobl Dyffryn Nantlle ein darbwyllo eu bod nhw yma'n ein plith, drwy gyflwyniad Marian Ifans i'w "chyd-ddyffrynnwr" Eifion Glyn!

Wedi'r cyflwyno – dyna'r cyfarwydd cyfoes yn ein cyfareddu!



*"Coes las a lobsgóws"* oedd ei deitl ar y cyflwyniad – a chafwyd eglurhad ar hynny. Ond cam-ddisgrifiad dybryd fyddai ystyried fod y cyfan yn seiliedig ar yr archeb teuluol i gigydd Penygroes ar gyfer y "Lobsgows" delfrydol – sef yr hyn fyddai'r rhai yn y de yn ei ystyried yn "ddeunydd teidi i gig cawl"!

Oedd, roedd yna amrywiaeth, ond heb fod yn gawl o bell ffordd. Yn sicr roedd yna flas ar yr arlwy ac, heb os, roedd yna ddawn y cyfarwydd wedi ei ychwanegu. Beth arall allech chi ddisgwyl gan un fu'n gohebu ar y cyfryngau cyhyd.

Ond pryd, meddech chi, y bu i'r gohebydd dorri allan i ganu? A chanu a chanu! Yr ateb, ydy ... yma yn y festri. *(A rhaid i mi fynegi fy siom fan hyn, gan iddo wrthod ymuno â Pharti'r Efail - y fath gynnig! - gan ddweud na allai ganu! Rwy'n datgan na fydd gweddill yr adolygiad hwn wedi ei ddylanwadu gan y camwedd hwnnw!)*

Wel, sôn am sioe gafwyd! Rhigymau gwatwar gan blant y Dyffryn – bellach yn siŵr o fod yn ymylu ar fod yn *"non-PC"*. Hyd yn oed 'jingls' pethau fel y "paraffin pinc". Ond roedd Eifion hefyd yn adroddwr *(llefarydd ydy'r term bellach)* mewn eisteddfodau lleol – a'r cyfan o'r cerddi yn dal ar ei gof. Camp i sawl un ohonom, bellach, reit siŵr!

Yna cafwyd hanesion am ei gyfnod fel trefnydd Urdd Gobaith Cymru ym Meirionnydd, a chymeriadau ardal Y Bala.

Ond, yn y cyfarfod, bydd hir gofio am iddo gynnau'r gannwyll ac ailadrodd sgets Dewi Pws yng Nglanllyn am y teulu rhyfeddol na allai ddiffodd fflam y gannwyll. Mae'r dirdyniadau wynebol mor gymhleth – rhaid rhoi clod 100% am y perfformiad. *(Roedd hwn yn gofnod y bu i'ch gohebydd ymgolli cymaint yn y perfformiad, nes peidio tynnu unrhyw lun o olygfeydd y sgets. – Sori! ).*

Yna cafwyd hanesion Eifion fel gohebydd – gan gynnwys dynwarediad rhyfeddol o'r asiant gwleidyddol, Elwyn Jones, yn Arfon, ac yna'r bardd R. S, Thomas yn dod wyneb yn wyneb â "Chofi's C'narfon"!

Wedi hynny, yn gwbl annisgwyl daeth atgofion ganddo o gân Côr y Fyddin Goch ym Moscow -"Cytgan yr Heliwr". A'i berfformiad yntau, fel chwiban a geiriau. Pwy allai ddymuno gwell gorffeniad?

*(Gyda llaw, mae yna le iddo o hyd i ganu efo Parti'r Efail! - mae'n gallu canu'n well na rhai ohonon ni!)*

**Ffisio yn y festri** **Eirlys Lamb**

# Cymdeithas (Heini) Bethlehem.



Wel, fe wnaeth yr amser hedfan wrth wrando ar Luned Clement yn trafod sut i edrych ar ôl ein hunan fel rydym yn heneiddio!
Eirlys T.J. wnaeth groesawu Luned – un o blant y capel wrth gwrs – sydd yn Ffisiotherapydd Cymunedol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Graddiodd Luned fel Ffisiotherapydd ym Mhrifysgol Nottingham ac wedyn gwneud gradd ychwanegol mewn 'Health and Exercise Science' ym Mhrifysgol Morgannwg
Cyn i Luned ddechrau cawsom ddarlleniad pwrpasol o waith Eifion Wyn gan Margaret Roberts.
Canolbwyntiodd Luned ar GWYMPO. Mae'n ffaith bod 1 ymhob 3 ohonom sydd dros 65 oed yn debygol o gwympo rhywbryd – a thebygol o beri niwed. OND mae'r ffigwr yna yn gostwng 23% os ydym yn cadw'n heini!
Beth sy'n peri inni gwympo? Wel, nifer o ffactorau – baglu, teimlo'n benysgafn oherwydd anhwylder, methu gweld yn glir, problem clyw sy'n effeithio ar ein cydbwysedd, meddyginiaeth. Ychwanegodd un gwrandäwr "Gwneud pethe twp sy'n peri inni gwmpo!"
Cawsom amrywiaeth o gyngor ar sut i osgoi cwympo, pethau digon syml y gallwn eu gwneud yn ein cartref yn ddyddiol. (Gweler y bamffled isod a'r un ar y dudalen nesaf):

## Cynllun Ymarfer Corff wrth Eistedd

1. Symud y ffêr i fyny ac i lawr: Symudwch y ffêr i fyny ac i lawr fel petasech chi ar bedal.



2. Ymestyn y pen-glin: Ymestynnwch goes o'ch blaen, daliwch hi am 3-5 eiliad ac yna gostyngwch hi'n araf yn ôl i lawr.



3. Plygu'r Glun: Martsiwch yn eich lle wrth eistedd; defnyddiwch eich breichiau hefyd os gallwch!



4. Gwasgu'r pen-ôl: Gwasgwch eich pen-ôl at ei gilydd.



5. Allsymud y glun: symudwch eich coes allan i'r ochr, ac yna yn ôl i'r canol. Ailadroddwch ar bob ochr.



6. Estyn yn uchel: Estynnwch i fyny tuag at yr awyr a gwthiwch eich brest allan.



Rydym yn argymell ceisio cwblhau'r ymarferion hyn bob dydd. Gellir eu gwneud i gyd gyda'i gilydd, neu mewn rhannau ar wahân os yw hynny'n haws i chi.

Anelwch at gwblhau 5-10 o bob ymarfer; dechreuwch ar rif is ac yna cynyddwch y nifer rydych chi'n eu cwblhau wrth i'r gwaith ddod yn haws.

Mae'n normal i'ch cyhyrau deimlo bach o boen ar ôl cynyddu eich ymarfer corff; fodd bynnag, os yw'r boen yn ormod, dylech roi'r gorau i'r ymarferion.

Ar ôl ymchwil manwl, awgrymir y dylai pawb ohonom anelu at dreulio 150 munud yr wythnos yn gwneud ymarfer corff. Mae llawer o'r ymarferion yn syml a medrir eu gwneud wrth wylio'r teledu, eistedd wrth y bwrdd neu hyd yn oed pan yn eistedd mewn oedfa ym Methlehem! Ie, rhywbeth i feddwl amdano...
Pleser oedd gwrando ar Luned yn ei ffordd naturiol a dihafal – a mae hi wedi addo dod nôl eto'r flwyddyn nesa. Diolch o galon Luned. *(A diolch am gopi o'r pamffledi! – Gol.)*

# Aros yn Egniöl Adre

www.csp.org.uk/easyexercises

**Gyda gofyn i ni aros adre, mae ffisiotherapyddion yn argymell ychydig o gamau syml i'ch helpu i aros yn egnïol, codi eich ysbryd a gostwng straen. Rhowch gynnig arnynt o leiaf ddwywaith yr wythnos – neu'n well byth, bob dydd!**



## Eistedd i sefyll

Eisteddwch yn syth ar flaen cadair gyda'ch traed ychydig yn ôl. Plygwch ychydig ymlaen a sefyll (gyda'ch dwylo ar y gadair os oes angen). Camwch yn ôl nes fod eich coesau'n cyffwrdd y gadair yna gostyngwch eich hun yn ôl i'r gadair. **Ailadrodd 10 gwaith.**



## Codi sawdl

Safwch yn syth, gan gydio yng nghefn cadair cegin gryf neu sinc y gegin ('cynhaliad') yna codwch eich sodlau oddi ar y llawr, gan roi'r pwysau ar fodiau'r traed. Daliwch am dair eiliad, yna ostwng yn araf. **Ailadrodd 10 gwaith.**



## Codi bodiau'ch traed

Safwch yn syth gan gydio yn y cynhaliad a chodi bodiau eich traed - gan roi'r pwysau ar eich sodlau. Cadwch eich pen ôl i mewn. Daliwch am dair eiliad, yna ostwng yn araf. **Ailadrodd 10 gwaith.**



## Sefyll ar un goes

Safwch yn agos at eich cynhaliad a chydio ynddo gydag un llaw. Cydbwysowch ar un goes, gan gadw'r pen-glin cefnog'n feddal a'ch ysturn yn syth. **Cadwch y safle am 10 eiliad. Ailadrodd 10 gwaith.**



## Sefyll sawdl-bodiau

Safwch yn syth, gyda un llaw ar eich cynhaliad. Rhowch un droed yn union o flaen y llall i wneud llinell syth. Edrychwch yn eich blaen, tynnu'ch llaw oddi ar y cynhaliad a chydbwyso am 10 eiliad. Ewch â'r droed flaen yn ôl i led clun ar wahân. **Yna rhowch y droed arall ar y blaen a chydbwyso am 10 eiliad.**



## Cerdded sawdl-bodiau

Safwch yn syth gydag un llaw ar gynhaliad tebyg i gwpwrdd cegin. Edrychwch yn eich blaen a cherdded 10 cam ymlaen, gan roi un droed yn union o flaen y llall fel bod eich traed yn ffurfio llinell syth. Arafwch am symudiad cerdded cyson. **Ewch â'ch traed yn ôl i led clun ar wahân, yna droi o amgylch ac ailadrodd y camau yn y cyfeiriad arall.**

**• GWNEWCH YN SIŴR** FOD Y GADAIR A DDEFNYDDIWCH YN GADARN **• GWISGWCH ESGIDIAU SY'N CEFNOGI EICH TRAED • OS CEWCH BOEN YN EICH BREST,** YN BEN-YSGAFN NEU'N DDIFRIFOL FYR O WYNT, STOPIWCH A FFONIWCH EICH MEDDYG TEULU NEU FFONIO 111 **• MAE YCHYDIG O DDOLUR** Y DIWRNOD WEDYN YN HOLLOL NORMAL

*Cadw hen addewid*

# "Plu'r Gweunydd yn y Gwynt"

**Rhys Powys**

"Dwi'n gobeithio dy fod ti eisiau bwyd!"

Dad oedd yn siarad ag yntau yn troi trwyn y Volvo o droead Talerddig, ar hyd y lôn gul dros y mynydd, tua Llanerfyl. Beth fydden i? Bachgen ysgol gynradd, naw neu ddeg oed, yn cadw cwmni i'w dad ar ei bererindod flynyddol i gynnal oedfa yn Biwla, Cwm Nant yr Eira. Mae'n debyg mai merlen fyddai gan fy nhaid i deithio o'r Hen Gapel, Llanbryn-Mair, i'w oedfaon yn y saith ysgoldy oedd yn rhan o'i ofalaeth yntau nôl yn nhridegau'r ganrif dd'wetha. Dad wedyn, yn fyfyriwr, yn reidio ei hen feic haearn ran o'r ffordd cyn cael lifft mewn car i ddringo fyny i ben pella'r cwm. Cuddio'r beic yn y clawdd oedd ei arfer, a hwnnw'n saff o fod yno i'w reidio adref eto rôl cael lifft yn ôl wedi'r oedfa. Roedd taid yn un o bregethwyr cyson Biwla rhwng 1933 a diwedd y 50au. Bu dad yn cynnal oedfa yno'n flynyddol am dros 60 o flynyddoedd - a'r Volvo glas oedd yn ein cario ninnau i'r capel bychan yn y cwm ar y Sul arbennig hwn nôl ar ddechrau'r 70au.





Fy nhad yn sôn am hanes Beibl Derwenog, T.E. Nicolas a Taid - Biwla, Awst 2021

"Capel" i fi, ar y pryd, oedd Minny Street, Caerdydd; capel mawr, dinesig gyda 'sêt fawr' lydan o bren tywyll, galeri eang ac organ bibau bwerus ei sain. Capel cefn gwlad syml yw Biwla; dau ddrws cul yn arwain yr addolwyr heibio i'r 'sêt fawr' fechan, pulpud syml a harmoniwm hen-ffasiwn o'i flaen lle byddai'r organyddes yn pwmpio'r pedalau yn egnïol. Does dim trydan yn y capel hyd heddiw. Byddai oedfaon yn cael eu cynnal yno dros fisoedd yr haf yn unig - o oedfa'r Pasg hyd at oedfa Ddiolchgarwch y Cynhaeaf. Siŵr gen i y byddai'r ffordd gul yn rhy beryglus i'w thramwyo dros fisoedd caled y gaeaf.

'Sul olaf Awst' oedd cyhoeddiad dad yn flynyddol a mam fyddai'n teithio gyda dad fel arfer - ond, am reswm na chofia i ddim, fi oedd yn cadw cwmni iddo ar yr achlysur hwn. Bachgen o'r ddinas oeddwn i ac roedd ymweld â Chwm Nant yr Eira, ym mherfeddion Maldwyn, fel cael fy nghludo i blaned arall. Dwi'n cofio'r tractors a'r Land Rovers wedi'u parcio ar hyd ymyl y lôn a byddai'r oedfa'n dechre pan fyddai'r sgwrsio y tu allan ar ben a phawb yn rhyw ymlwybro tua'r capel, fel defaid yn dilyn ei gilydd trwy'r adwy. Sgwrsio'n hir yn yr haul oedd y drefn ar ôl yr oedfa hefyd a finne'n syllu fyny ar y dyrfa ryfedd. Byddai plant y cwm wedi hen redeg am y cae gerllaw i fwynhau eu rhyddid

’rôl awr o eistedd yn llonydd a thawel. Ond dieithryn oeddwn i. Ffermwyr cydnerth oedd mwyafrif y gynulleidfa a’u dwylo geirwon, cryfion yn cydio’n dynn yn fy ysgwydd. “Ffor ‘mae, syrri bêch”! Roedd y bobl yma’n siarad iaith estron hyd yn oed!




“Sychtyn”, “Cwm-derwen”, “Dolau-Ceimion” a “Dolwen”. Byddai teulu un o’r ffermydd lleol yn gwahodd y gweinidog i gael te wedyn, a hwnnw’n de sylweddol wrth gwrs! Dwi’n cofio cael fy rhoi i eistedd o flaen tanllwyth o dân coed mewn parlwr tywyll. Rhaid mod i’n gwisgo trowsus byr achos dwi’n cofio’n iawn i groen fy nghoes ddechre poethi a throi’n goch - a finne’n rhy swil i symud na sôn fy mod braidd yn agos at y fflamau! Ond roedd digon o fwyd! Brechdanau a chigoedd a chacennau hufennog. “Dowch rwan! B’ytwch fel tase chi adre, Mr. Ifans…”

Yn y gerdd “Nant yr Eira,1932” mae Iorwerth Peate yn hiraethu na fyddai lleisiau “Derwenog a rhai o wŷr Capel Biwla” i’w clywed bellach yn y capel bychan.

> “Ni ddychwel yr hen leisiau yn ôl i Fiwla trwy
> Flin drais y ddwylath gweryd; bu’n ormod iddynt hwy.
> Bydd dawel, galon ysig, a phaid â’u disgwyl mwy.”

Ond mae gen i deimlad y byddai “calon ysig” Iorwerth Peate wedi profi ychydig o gysur, efallai, ar benwythnos braf yng nghanol Hydref eleni pan gynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch i ddathlu 150 mlwyddiant yr achos yn Biwla, Cwm Nant. Fy chwaer, Betsan, a finne gafodd y fraint o arwain yr oedfa, a Siân a Dylan yn ein cynorthwyo… ac roedd hi’n anrhydedd i ni gael bod yno. Byddai Iorwerth Peate wedi gweld y capel ar ei orau dan heulwen aur yr Hydref, tyrfa barchus y tu allan a llond y ddôl o geir a 4x4’s llychlyd oedd wedi cludo babis a phlant, rhieni, ffermwyr a phensiynwyr o bell ac agos i’r c’warfod p’nawn. A’r un oedd y drefn ar ddiwedd yr oedfa; pawb yn sefyllian yn dyrfa dawel a finne’n ddigon tal bellach i allu edrych yn syth i lygaid pobol a diolch iddynt am eu gwrandawiad a’u croeso caredig. Aeth y plantos i redeg a sgrechian rhwng y ceir - a dwi’n grediniol i mi gael cip ar wynebau plant y 70au yn wynebau rhadlon rhai o’r gynulleidfa, yn ffermwyr eu hunain bellach, yn eu hoed a’u hamser.

“Dwi’n gobeithio dy fod ti eisiau bwyd!” medde fi wrth Siân wrth i ni ddilyn y rhes ceir lawr o’r cwm i gaffi’r Dyffryn ger y Foel. (Caffi bach gwych! Galwch yno os y byddwch chi’n digwydd pasio). Roedd y lle dan ei sang a’r gynulleidfa gyfan wedi ail-grynhoi yno hyd y gwelwn i. Cyfle i ymlacio; i sgwrsio. Wrth i ni fwynhau llenwi’n boliau gyda’r brechdanau a’r cacennau hufennog gore i fi’u blasu ers amser maith, buan iawn y trodd y sgwrs at y tywydd, prisiau’r farchnad yng Nghroesoswallt a hynt a helynt bywydau trigolion Dyffryn Banw. Sgwrs ffermwyr; sgwrs Cymry da cefn gwlad Sir Drefaldwyn… yr un math o sgwrs a glywsai dad a taid, Iorwerth Peate a Derwenog hyd yn oed, gan bobol Biwla yn y blynyddoedd a fu, siŵr gen i.

Yn hwyr y p’nawn fe droais drwyn y car yn ôl am y brifddinas; siwrne hir a’r haul isel yn llosgi fy llygaid cyn i’r sêr ymddangos “… yn llu canhwyllau draw ar allorau’r bryn.” Ond roeddwn yn dawel fy meddwl. Yn fodlon fod hen, hen addewid wedi’i gadw am dymor arall, fod lleisiau’r gymuned wedi’u clywed o’r newydd rhwng muriau Biwla unwaith yn rhagor - a bod cryndod plu’r gweunydd yn dal i’w deimlo yn y gwynt ger Dôl-y-garreg-wen.

# *Gweithgareddau Bethlehem*






Ddiwrnod cyn buddugoliaeth hanesyddol Cymru dros Y Crysau Duon ar Sadwrn Tachwedd 14, braf oedd gweld a chlywed un o'n cyd-aelodau a'r praff-sylwebydd yn hel atgofion am y fuddugoliaeth a fu ym 1953. Brafiach fyth oedd gweld Huw, wedi'r gêm yn llawenhau wedi'r fuddugoliaeth ddiweddaraf yn 2026.

# Rhai o'r oedfaon diweddar

Oedfa'r Parchedig Gethin Rhys, gyda help Fiona a Tomos – 22.11.26
Linc: https://youtu.be/h7-6d5mIT4s





(Isod) Oedfa Rhodri-Gwynn Jones gyda help Wil a Nanw – Sul 01.11.26
Linc: https://youtu.be/CklPzxv4BO0





(Isod) Oedfa Marc Jon Williams gyda help Jaco a'r llu fu'n cludo'r 'claf' yn y blanced – Sul 15.11.26
Linc: https://youtu.be/Mva4lLvz-PU



